GA6 **GWASANAETH ARCHIFAU GWYNEDD**

AMODAU A GRADDFEYDD FFIOEDD **-** ar gyfer atgynhyrchu deunydd archifol, ac ar gyfer ffilmio mewn archifdai ac eiddo arall y Gwasanaeth Archifau.

1. Gellir cyflenwi atgynhyrchiadau o ddeunydd yng ngofal Gwasanaeth Archifau Gwynedd am
y prisiau a nodir isod (pacio a phostio yn ychwanegol) mewn llawer o achosion. Mae Prif Archifydd, fodd bynnag, yn cadw'r hawl i wrthod caniatâd i wneud atgynhyrchiadau heb nodi unrhyw reswm; ac mae rhai adneuwyr wedi nodi'n bendant nad ydynt yn fodlon i gopïau gael eu gwneud, ac mewn achos felly wrth gwrs perchir eu dymuniadau i'r eithaf.

2. <u>HAWLFRAINT</u>: Nid yw cael caniatâd i atgynhyrchu copi o eitem yn golygu nad oes rhaid cael y caniatâd atgynhyrchu angenrheidiol oddi wrth berchennog unrhyw hawlfraint a all fod ar yr eitem. Ni all Gwasanaeth Archifau Gwynedd roi unrhyw wybodaeth na chynnig barn o gwbl ynglyn â bodolaeth unrhyw hawlfraint ar unrhyw eitem.

3. Rhaid cydnabod ffynhonnell atgynhyrchiad mewn unrhyw beth a gyhoeddir neu ar unrhyw ffilm neu raglen deledu yr ymddangosir ynddi. Dylid defnyddio'r ffurf 'GWASANAETH ARCHIFAU GWYNEDD' wrth gydnabod y ffynhonnell, oni drefnir yn wahanol. Rhaid i'r gydnabyddiaeth ymddangos (mewn cyhoeddiadau) naill ai yn union wrth ymyl y copi, neu yn yr adran a neilltuwyd ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth, ac yn yr achos hwnnw, rhaid nodi'r eitem(au) y mae'r gydnabyddiaeth yn cyfeirio ato/atynt. Dylid rhoi cydnabyddiaeth mewn rhaglenni teledu a ffilmiau ymysg y 'credits' ac mewn modd digon amlwg.

4. Ni chaiff unrhyw berson wneud copïau o gopïau a gyflenwir gan Wasanaeth Archifau Gwynedd. Ni chyflenwir unrhyw negyddion. Darperir copïau am y pwrpas a nodir wrth wneud y cais amdanynt, ac ni chaniateir eu gosod mewn llyfrgell lluniau neu eu hail-ddefnyddio mewn unrhyw ffordd arall heb ganiatâd.

5. Mae’r Prif Archifydd yn cadw'r hawl i amrywio neu ddileu'r ffioedd a godir mewn amgylchiadau arbennig, neu ar gyfer gwaith anfasnachol.

6. Dim ond am yr un tro fel y nodir ar ffurflen GA5 y mae'r caniatâd i atgynhyrchu a'r tâl gwreiddiol yn ddilys. Rhaid gwneud cais arall os am ail-gyhoeddi, ail-argraffu neu ail-ddefnyddio'r platiau argraffu ar gyfer cynllun arall, ac nid yw'r tâl gwreiddiol yn talu am hyn.

7. Rhaid cyflwyno copi braint o bob cyhoeddiad sy'n cynnwys eitemau a atgynhyrchwyd o gasgliad Gwasanaeth Archifau Gwynedd yn ogystal â'r ffi atgynhyrchu i'r Gwasanaeth Archifau.

8. Diogelir yr hawl i wrthod ceisiadau heb roi rheswm am hynny.

9. Ar gyfer unrhyw amgylchiadau nas crybwyllwyd uchod, dylid gwneud ceisiadau i Brif Archifydd Gwasanaeth Archifau Gwynedd, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Caernarfon. LL55 1SH.

# FFIOEDD

**LLUNGOPIAU**

| | |
|---|---|
| Du a gwyn bob maint | 30c y dudalen |
| Lliw bob maint | 50c y dudalen |

Drwy'r post – isafswm o 4 llungopi am £5.00 a 50c am bob copi tu hwnt i'r isafswm

**FFOTOGRAFFAU**

| | |
|---|---|
| Copïau o ddeunydd archifol (du a gwyn) *hyd at 11"* x 8" | £11.00 |
| Print Digidol | £11.00 |

**DEFNYDD O ADNODDAU ARCHIFOL**

| | |
|---|---|
| Atgynhyrchiad o luniau (mewn cyhoeddiad masnachol) | £25+T.A.W |
| Atgynhyrchiad o luniau ar deledu/ffilm (Prydeinig) | £80+T.A.W. |
| Atgynhyrchiad o luniau ar deledu/ffilm (Cymreig) | £60+T.A.W. |

**TÂL FFILMIO**

| | |
|---|---|
| Ffilmio lluniau llonydd ar eiddo'r Adain (mesul awr) | £50+T.A.W. |
| Ffilmio rhaglenni dogfennol/drama ar eiddo'r Adain (hanner diwrnod) | £120+T.A.W. |

**Y RHYNGRWYD**

| | |
|---|---|
| Atgynhyrchiad o luniau ar y rhyngrwyd | £40+T.A.W. |

**FFIOEDD YMCHWIL**

| | |
|---|---|
| Am yr hanner awr cyntaf (i gynnwys post, copïau ac ati)/ | £20.00 |
| Am bob awr yn dilyn yr hanner awr cyntaf | £30.00 |

**GWAITH CADWRAETH**

| | |
|---|---|
| Diogelu ac atgyweirio, rhwymo, mowntio deunydd ar gyfer arddangosfeydd, (codir yn ychwanegol am ddefnyddiau drud). | £30+T.A.W. (yr awr) |

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL